



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Rhaglen Afiechydon Ataliadwy Trwy Frechu (RAAF)

Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

Vaccine Preventable Disease Programme (VPDP)

Public Health Wales, 2 Capital Quarter,
Tyndall Street, Cardiff, CF10 4BZ

Mehefin 2019

Annwyl Bennaeth,

Rhaglen brechu rhag y fflw mewn plant

Diolch i chi am eich help a'ch cefnogaeth gyda'r rhaglen brechu rhag y fflw mewn plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y llynedd cafodd mwy o blant nag erioed frechiad y fflw yn yr ysgol ac ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb eich cefnogaeth gyson chi.

Yn 2019/20, bydd pob plentyn yn y dosbarth derbyn i flwyddyn ysgol 6 yn cael cynnig brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn yn yr ysgol unwaith eto.

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud yn lleol ynghylch y sesiwn brechu yn eich ysgol. Efallai bod rhywun wedi cysylltu â chi eisoes ond, os nad oes, bydd eich bwrdd iechyd lleol yn cysylltu â chi'n fuan.

Mae taflen wybodaeth ar gyfer staff ysgolion cynradd wedi cael ei chynnwys gyda'r llythyr hwn. Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael yn fuan yn www.curwchffliw.org neu www.beatflu.org. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch nyrs ysgol neu dîm imiwneiddio'r ysgolion.

Hefyd, efallai eich bod yn ymwybodol bod y frech goch yn parhau i gael ei chanfod yn Ewrop. Mae'r frech goch yn un o afiechydon mwyaf heintus y byd felly plis daliwch ati i atgoffa rhieni o bwysigrwydd sicrhau bod eu plant wedi cael dau ddos o'r brechiad yn erbyn y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR). Dylai rhieni gysylltu â'u meddyg teulu i drefnu brechiad MMR os nad ydynt yn siŵr a yw eu plentyn wedi cael pob brechiad.

Ymddiheurwn ymlaen llaw am unrhyw darfu fydd yn digwydd pan fydd brechiad y fflw yn cael ei roi yn eich ysgol a diolchwn i chi am eich cefnogaeth gyson.

Yn gywir

Mrs Jane Dyson

Nyrs Imiwneiddio Arbenigol
Jane.Dyson2@wales.nhs.uk

Dr Richard Roberts

Pennaeth y Rhaglen

